

# Pop Nadolig 2017

Y prif artist yn Pop Nadolig eleni fydd Heatwave, un o fandiau enaid mwyaf poblogaidd y ddegawd ddiwethaf, gyda'u cymysgedd hyfryd o gerddoriaeth braf a chaneuon pop/enaid/dawns.

Gyda chaneuon poblogaidd fel 'Mind Blowing Decisions', 'Boogie Nights' a'r clasur 'Always and Forever', mae Heatwave yn hen gyfarwydd â llwyddiant yn y siartiau.

Felly beth arall fyddwch chi ei angen i sicrhau eich bod yn barod am y Nadolig? Lleisiau anhygoel, symudiadau dawns slic, a llwythi o dalent.

Hefyd yn perfformio yn y cyngerdd bydd:

- Midnight Soul Sisters a gafodd eu creu gan y berfformwraig Bupsi Brown, a ddaeth i enwogrwydd yn dilyn cyfnod ar raglen deledu'r X Factor, ac fe gyrhaeddodd hi y rhaglenni byw yn grŵp Simon Cowell. Mae eu perfformiad yn llawn soffistigeiddrwydd, graen a charisma gan fod gan bob merch dalent unigryw, gyda phersonoliaeth a llais i gyd-fynd.
- Informal Soul sydd yn gobeithio ail-greu atgofion o Enaid y Rhyl o'r 60au a'r 90au. Roedd Dave Williams yn aelod o The Fabulous Twins a fu'n canu gyda'r grŵp lleol The Informers, ac roedd ei bartner yn Informal Soul yn chwarae'r sacsoffon tenor a'r allweddellau ac yn gyfarwyddwr cerdd yn The Fabulous Twins.

Meddai Dave: "Rydym wrth ein bod yn canu'r holl ganeuon gwych yma, allwn ni ddim aros i rannu hyn gyda chefnogwyr cerddoriaeth enaid y Rhyl. Rydym ni'n ddeuawd erbyn hyn, ond gyda chymorth technoleg fodern, rydym ni'n gobeithio creu sain cerddoriaeth enaid er mwyn cael pawb i ymuno."

- Côr Ysgol Emmanuel sydd wedi perfformio'n rheolaidd yn Eglwys Sant Tomos, gan gynnig cefnogaeth i fentrau codi arian lleol ac achosion da.

Cynhelir y cyngerdd, a drefnir gan Gyngor Sir Ddinbych, mewn partneriaeth â Chyngor Tref y Rhyl, yn Eglwys Sant Tomos, y Rhyl nos Sul, 10 Rhagfyr am 5pm.

Dywedodd y Cynghorydd Bobby Feeley, Aelod Arweiniol y Cabinet gyda chyfrifoldeb dros Wasanaethau Hamdden: "Mae'r cyngerdd yn rhan annatod o'r cyfnod sy'n arwain at yr ŵyl ac rydym yn hynod falch o gael artistiaid mor arbennig eleni.

"Mae hwn yn gyfle gwych ar gyfer perfformwyr hen a newydd ac rwy'n siŵr y bydd yr adborth mor wych ac erioed".

Dywedodd Maer Tref y Rhyl, y Cynghorydd Alan James "Mae Cyngor Tref y Rhyl unwaith eto'n falch o gefnogi Pop Nadolig, sef un o uchafbwyntiau'r calendr Nadolig. Mae hi'n noson boblogaidd iawn ac rydym ni'n edrych ymlaen at noson lwyddiannus arall".

Mae tocynnau i'r digwyddiad yn rhad ac am ddim, ond mae angen i bobl sydd â diddordeb mewn ymuno yn y dathliadau archebu eu tocynnau trwy gysylltu â Chanolfan Groeso'r Rhyl.

Bydd tocynnau ar gael o 10.00am ddydd Mawrth 14 Tachwedd, i gael amseroedd agor y swyddfa, ffoniwch Canolfan Groeso'r Rhyl ar 01745 355068.